

CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



**Cyfarfod Is-Bwyllgor Cystadlaethau
Dydd Mawrth 30ain Mawrth 2021
ZOOM 7yh**

COFNODION

CADEIRYDD:

Miss Katie Court

IS-GADEIRYDD: Miss Sian Healey

YN BRESENNOL:

Katie Court (Cadeirydd Pwyllgor), Kate Thomas (Morgannwg), Edna Jones (Ynys Môn Trefnydd Sir), Katie Matthews (Gwent), Caryl Haf (Is-Gadeirydd CFFI Cymru), Emma Rees (Brycheiniog), Sioned Davies (Ceredigion), Gwen Thomas (Eryri), Will Hughes (Ynys Môn), Manon Williams (Meirionnydd), Elen Williams (Morgannwg) Elin Calan-Jones (Ceredigion), Tania Hancock (Sir Benfro), Katie Davies (Cadeirydd CFFI Cymru), Esyllt Jones (Ceredigion) Elizabeth Swancott (Maesyfed), Sion Evans (Sir Gâr), Delun Evans (Sir Benfro), Fflur Powell-Roberts (Ynys Môn)

HEFYD YN BRESENNOL:

Rhodri Lewis, CFFI Cymru

C/57/1921 CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd Katie Court bawb i'r seithfed gyfarfod o is-bwyllgor Cystadlaethau am y flwyddyn CFFI 2020/2021.

Nodwyd fod gan bob Sir ddau gynrychiolwr pleidleisio, fodd bynnag, fe all fwy o aelodau o bob Sir fynychu ond dim ond dau aelod fydd yn medru pleidleisio.

Esboniodd Katie fod y cyfarfod heno i drafod unrhyw ymholiadau ynglyn a'r Siarad Cyhoeddus rhithiol ac i wneud rhagor o drefniadau am Reolau Rhithiol y Sioe Frenhinol, trafod Cystadleuaeth Cywain a hefyd trafod cystadleuaeth gwyl penwythnos.

C/58/1921 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan: Aled Thomas.

C/59/2021 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd gofnodion y cyfarfod diwethaf eu rhannu ar y sgrin, eu darllen a'u cadarnhau fel record wir a chywir.

Cynigydd: Kate Thomas (Morgannwg)

Eilydd: Tania Hancock (Sir Benfro)

C/60/2021 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cafwyd dim ei nodi.

C/61/2021 GOHEBIAETH

a) Derbynwyd e-bost gan Kate Thomas, CFFI Morgannwg:

Hi Claire a Rhodri

A allwch chi os gwelwch yn dda ychwanegu Tynnu'r Gelyn i Agenda cyfarfod nesaf Cystadlaethau? Mae FfCCFFI wedi gofyn a allwn ni drafod ymgeisio'n uniongyrchol i Tynnu'r Gelyn FfCCFFI heb gael rownd rhanbarthol.

Kate

Nododd Kate Thomas fod cyfarfod pellach wedi ei gynnal ers i Kate ddanfôn yr e-bost i CFFI Cymru ac mae FfCCFFI wedi gohirio eu cystadleuaeth Tynnu'r Gelyn ym mis Mehefin tan fis Medi neu fis Hydref. Mae FfCCFFI wedi gofyn i ardaloedd fynd yn ôl a chael adborth ar gystadleuaeth Tynnu'r Gelyn erbyn cyfarfod nesaf FfCCFFI.

'Roedd e-bost wedi cael ei dderbyn gan FfCCFFI ynglyn a Thynnu'r Gelyn ac yn dweud y gallai dîmau yn gysylltiedig a Chymdeithas TOW ailddechrau ymarfer. 'Roedd yr aelodau yn ansicr os gallai dîmau yng Nghymru ailddechrau ymarfer o dan y canllawiau yng Nghymru gan nodi mae dim ond aelodau o dan 18 sydd yn gallu ailddechrau ymarfer mewn gwahanol chwaraeon. Cytunwyd y dylai cysylltu gyda Chymdeithas Gymreig Tynnu'r Gelyn ac i hwn fod ar Agenda cyfarfod nesaf y pwyllgor Cystadlaethau.

C/62/2021 I DRAFOD CYSTADLAETHU'R DYFODOL

a) Penwythnos Siarad Cyhoeddus Rhithiol 2021

Nododd Katie Court fod ceisiadau wedi cael eu derbyn gan CFFI Cymru ar 29/03/2021 a bod gwaith yn mynd ymlaen i gwblhau rhaglen y Siarad Cyhoeddus ac i'w gylchredeg i'r Siroedd.

Gofynnwyd a oedd gan y pwyllgor unrhyw ddewis ar ba ddiwrnodau y dylai Cyfweiliadau Ymgais am Swydd ac Aelod y Flwyddyn gymryd lle yn ystod y penwythnos. Cytunwyd y dylai CFFI Cymru drefnu'r cyfweiliadau hyn lle byddai'n gyfleus rhwng y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus.

24/04/2021 – Siarad Cyhoeddus Cymraeg

25/04/2021 – Siarad Cyhoeddus Saesneg

b) Sioe Frenhinol Rhithiol 2021

Nododd Katie Court fod trafodaeth wedi cael ei gynnal yn y cyfarfod diwethaf ynglyn a Sioe Frenhinol Rhithiol 2021 ac fe gafodd y rheolau a nodwyd y tro diwethaf eu cylchredeg cyn y cyfarfod hwn.

Agorwyd y llawr i gael trafodaeth ynglyn ag unrhyw gwestiynau neu ymholiadau.

Nodwyd fod rhai Siroedd yn pryderu ynglyn a barnu stoc a'r bridiau a gafodd eu dewis, yn cynnwys dod o hyd i feirniaid a oedd yn siarad Cymraeg ac hefyd cael lluniau a fideos o'r bridiau. Ar ol cael trafodaeth, cytunwyd y byddai CFFI Cymru yn cysylltu gyda cymdeithas y bridiau i ofyn a fyddent yn fodlon i gefnogi drwy ddarparu lluniau/fideos ac hefyd darganfod beirniaid yn enwedig rhai sy'n siarad Cymraeg.

'Roedd y Pwyllgor hefyd wedi meddwl am a chytuno ar stoc wahanol – rhag ofn y byddai unrhyw frid yn methu addasu gofyniad y Pwyllgor ynglyn

beirniaid a stoc. Cytunwyd y byddai Swyddogion y Pwyllgor a CFFI Cymru yn edrych yn ôl ar gystadlaethu barnu stoc yn y gorffennol a dewis brid a gafwyd ryw 4 neu 5 mlynedd yn ôl i'w ddefnyddio yn y Sioe Frenhinol Rhithiol eleni.

Cytunwyd hefyd y byddai cystadlaethau barnu Stoc yn digwydd ar ddydd Sul 27ain Mehefin 2021 gyda'r gystadleuaeth yn rhedeg ar Zoom. Bydd y cystadleuwyr i gyd yn gweld y lluniau ar yr un amser ac yn cael eu rhoi mewn ystafelloedd gwahanol i roi eu rhesymau.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai Gêm Cenhedlaeth y Cadeirydd yn cael ei gynnal ar 10fed o Orffennaf 2021.

Cystadlaethau Sioe Frenhinol Rhithiol 2021

1. Arwydd Hyrwyddiad – hyrwyddo ffermio Prydeinig a/neu Gymreig
2. Canu – can o'r 9-degau (hen neu newydd ond ei bod wedi cael ei rhyddhau yn y 9 degau}.
3. Merlod Cymreig – Adran D
4. Defaid Texel Glas
5. Eidion yr Ucheldir – cytunwyd i agor i aelodau SAYFC'
6. Fideo i hyrwyddo Clwb – dim mwy na 2 funud a lleiafrif o 3 aelod (o leiaf un o dan 19 ac un o dan 27)
7. Dosbarth Dawns Rhithiol
8. Coginio – fe fydd aelodau yn cael un eitem o fwyd ac fe fydd yn rhaid iddynt wedyn wneud unrhyw bryd o fwyd yn cynnwys yr eitem hyn. Fe fydd y cystadleuwyr yn cael yr eitem yma o fwyd ac fe fyddant yn cael 10 diwrnod o dderbyn yr eitem i gyflwyno beth maent wedi'i baratoi drwy fideo/llun ayb + rhestr rysait. £20 i'w wario.
9. Gêm Cenhedlaeth Cadeiryddion Sir
10. Celf – I ddathlu 20 mlynedd o Ambiwlans Awyr Cymru
11. Eitem wedi'i ailgylchu – ddim i ddefnyddio yr un eitem ag yn 2020.

c) Cystadleuaeth Cywain

Nododd Katie Court fod hi a Nia Lloyd wedi ymuno a Cywain mewn ambell gyfarfod yn yr wythnosau diwethaf. Rhanwyd dogfen ar y sgrin gyda aelodau'r Pwyllgor Cystadlaethau ynglyn a Cystadleuaeth Cywain a gaiff ei ryddhau ym mis Mai.

Esboniodd Katie y Gystadleuaeth yn fyr y bydd Cywain eisiau i aelodau greu a chyflwyno bwydlen newydd a dyfeisgar yn defnyddio cynnyrch bwyd a diod Cymreig yn lleol iddynt hwy.

Nododd Katie hefyd fod Cywain yn awyddus i glywed os fyddai gan y Pwyllgor Cystadlaethau #hashtag i'r gystadleuaeth. Ar ôl trafodaeth, nodwyd rhai awgrymiadau:

- Produce2produce
- Coginio'r CFFI

d) Gwyl Penwythnos 2021

Yn ôl ym mis Tachwedd a Ionawr, 'roedd y Pwyllgor wedi trafod y posibilrwydd o drefnu gwyl benwythnos wyneb yn wyneb ar y 4ydd a 5ed o Orffennaf.

Nodwyd y byddai cystadlaethau FfCCFFI yn cynnwys:

02/10/21 – Codi Ffens, Sgiliau Diogelwch Fferm, Rhaff Neidio, Tynnu Gelyn.

03/10/21 – Cricied Cyflym, Pelrhwyd Merched, Peldroed Dynion.
Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r cystadlaethau hyn ac fe gytunwyd y dylai'r drafodaeth hon gael ei rhoi ar Agenda'r cyfarfod nesaf ar 25ain Mai. Cytunwyd hefyd y dylai CFFI Cymru edrych i gynnal y benwythnos ar y 14eg a 15fed o Awst.

C/63/2021 EITEMAU AGENDA A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

- a) **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – cadarnhawyd fel dydd Mawrth 25ain Mai 2021
- b) **Eitemau i'r cyfarfod nesaf:**
 - Gwyl Gystadlu Penwythnos
 - Adborth Eisteddfod Rhithiol / Siarad Cyhoeddus
 - Sioe Frenhinol Rhithiol

C/64/2021 UNRHYW FUSNES ARALL

- a) Gofynnwyd os oedd CFFI Cymru yn bwriadu trefnu Eisteddfod ym mis Tachwedd/Rhagfyr fel sy'n arferol. Nodwyd fod yr Eisteddfod eleni am y flwyddyn 20-21 ond 'doedd dim wedi'i gadarnhau ar hyn o bryd.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill yn codi, diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniadau a cauwyd y cyfarfod am 20.20yh.

Arwyddwyd:

Dyddiad:

.....